monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Gwener, 16 Rhagfyr 2016**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 30 Rhagfyr 2016**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir G. Burrows, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, E. Hacket Pain, P.A.D. Hobson, S.B. Jones and P. Murphy

**AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir A. Easson, R. Harris, S. Howarth, M. Powell and V. Smith

**SWYDDOGION YN BRESENNOL**

| Eitem Rhif | Title | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **4a** | Cyllid Adran 106 – Cae 3G ac Uwchraddio Ardal Chwarae Castell Cil-y-Coed | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br><br>Argymell bod y Cyngor yn cynyddu cyllideb cyfalaf 3G (Cod Cyllideb Cyfalaf 90761) gan £26,335 i gynnwys y gwariant ychwanegol a aethpwyd iddo ar y prosiect hwn.<br>• Y dylid defnyddio £26,335 o weddill Adran 106 Heol yr Eglwys i wneud yn iawn am y gorwariant a aethpwyd iddo wrth gynnal gwaith ychwanegol ar gae 3G Glan Hafren yng Nghil-y-Coed;<br>• Bod £63,500 o weddill Adran 106 Heol yr Eglwys yn cael ei defnyddio i uwchraddio'r ardal chwarae i blant yng Nghastell Cil-y-Coed yn gyfan gwbl;<br>• Y dylid oedi uwchraddio'r ardal chwarae i blant yng Nghas Troggy, Cil-y-Coed er mwyn rhoi ystyried pellach i ardaloedd chwarae yn gyffredinol ledled y Sir. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4b** | Cytuno i ganiatáu mynediad i Gyngor Dinas Casnewydd rhan Partner Ychwanegol i'r SRS | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>• Bod pob partner yn cytuno bod Cyngor Dinas Casnewydd yn ymuno â SRS fel partner, gan arwain at fuddion i SRS a phob sefydliad sy'n bartner. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4c** | Adolygiad o ffioedd a chostau arfaethedig yr Awdurdod i'w cynnwys yng nghyllideb 2017-18 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>• Bod y ffioedd a chostau arfaethedig ar gyfer 2017/18 a nodwyd ar gyfer pob math o wasanaeth â chost a wneir, fel yr amlinellir yn Atodiad 1, yn cael eu mabwysiadu. Gan eithrio cynnydd yng nghostau meysydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | parcio.<br>• Bod y cynnydd mewn costau yn dechrau dim hwyrach na'r 1af o Ebrill 2017, gydag unrhyw bwysau a ddaw o gynnydd yn digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei reoli gan Brif Swyddogion o fewn dyraniadau cyllideb eu cyfarwyddiaeth berthnasol.<br>• Bod Prif Swyddogion yn sylfaenol yn rheoli'r pwysau ar gyllidebau a amlygir gan wasanaethau nad sy'n cynyddu costau yn unol â'r cynnydd 2.5% a dybir yn MTFP 2017-21. Dylid hefyd ystyried effeithiolrwydd costau a'r costau gweinyddol a ddaw yn sgil ychwanegu cynnydd bach i gostau cyfredol. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4d** | Cynigion cyllideb drafft 2017/18 am ymgynghoriad | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>• Bod y Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi'r cynigion drafft ar arbedion yn y gyllideb ar gyfer 2017/18 at ddibenion ymgynghori.<br>• Bod y Cabinet yn cymeradwyo bod y cyfnod ymgynghori a'r cyfle i gyflwyno cynigion amgen sydd wedi cael eu hasesu o ran Effaith ar Gydraddoldeb yn dod i ben ar 31 Ionawr 2017.<br>• Bod y Cabinet yn cytuno i barhau i weithio ar y meysydd sydd eu hangen i fantoli cyllideb 2017/18 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP), trwy'r cyfleoedd hynny a nodwyd yn rhaglen Sir Fynwy y Dyfodol sydd ar y gweill. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4e** | Cynigion cyllideb cyfalaf 2017/18 i 2020/21 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>• Bod y Cabinet yn cyhoeddi ei gynigion drafft ar gyllideb cyfalaf ar gyfer 2017/18 i 2018/21 at ddibenion ymgynghori fel yr amlinellwyd a chyfeiriwyd at yn Atodiad 2.<br>• Bod y Cabinet yn cadarnhau strategaeth gyfalaf sy'n ceisio blaenoriaethu rhaglen Ysgolion y Dyfodol y Cyngor ac ymrwymiadau eraill tra hefyd yn parhau i ariannu rhaglen cyfalaf craidd isafswm, a gan gydnabod y risgiau sydd ynghlwm â'r ymagwedd hon.<br>• Bod y Cabinet yn adolygu blaenoriaethau'r rhaglen gyfalaf yn sgil y materion a godwyd yn 3.7 a gofynion eraill am adnoddau cyfalaf.<br>• Bod y Cabinet yn ailddatgan yr egwyddor bod cynlluniau newydd yn gallu cael eu hychwanegu at y rhaglen, dim ond os yw'r achos busnes yn dangos eu bod yn hunan-ariannu neu os bennir bod y cynllun yn flaenoriaeth uwch na chynlluniau cyfredol yn y rhaglen ac felly yn eu disodli.<br>• Bod y Cabinet yn cytuno i uchafu'r defnydd o dderbynebau cyfalaf pan y'u derbynnir i ariannu'r rhaglen cyfalaf (gan leihau'r angen i fenthyg trwy hynny), a/neu eu rhoi i'r neilltu i ad-dalu dyledion fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.10.<br>• Bod y Cabinet yn cytuno i werthu asedau yn unol â'r Cynllun Rheoli asedau ac a nodwyd yn y papur cefndir ar eithriadau er mwyn cefnogi'r rhaglen gyfalaf, ac unwaith y cytunir arnynt, bod dim opsiynau eraill yn cael eu hystyried ar gyfer yr asedau hyn. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| |
|---|
| **Gwybodaeth ychwanegol:** |